SAFON ANSAWDD TAI CYMRU

Yn 2002, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) er mwyn helpu i wella ansawdd tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Safon yn golygu bod yn rhaid i landlordiaid ta cymdeithasol - fel cynghorau a chymdeithasau tai – sicrhau bod cartrefi mewn cyflwr da, yn gynnes ac yn ddiogel, ac yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern erbyn 2020.

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** wedi bod yn gwneud gwelliannau i'w dai cyngor er mwyn cydymffurfio gyda'r Safon. Roeddem am wybod barn preswylwyr Caerffili (tenantiaid a phrydleswyr) ar eu cartrefi a gwasanaeth tai'r Cyngor. Mae nifer o breswylwyr eisoes wedi cael gwaith wedi'i gwblhau ond mae rhai'n dal i aros i'r gwaith ddechrau. Felly gwnaethom siarad gyda phreswylwyr am eu profiad o waith y Cyngor sydd wedi'i gynllunio neu waith a wnaed a dyma beth oedd ganddynt i'w ddweud.

Mae'r rhan fwyaf o breswylwyr yn fodlon ar gyflwr eu cartref a'r gwelliannau SATC a wnaed gan y Cyngor. Mae trigolion yn llai bodlon ar du allan eu cartrefi.

BODLONRWYDD CYFFREDINOL GYDA GWAITH SATC

81% yw nifer y preswylwyr sydd wedi cael gwaith ac sy'n fodlon

CEGIN

79% yw nifer y tenantiaid sy'n fodlon ar gyflwr cyffredinol eu cegin

YSTAFELL YMOLCHI

79% yw tenantiaid sy'n fodlon ar gyflwr cyffredinol eu hystafell ymolchi

AMSEROLDEB Y GWAITH

71% yw nifer y preswylwyr a ddywedodd wrthym fod y Cyngor wedi cwblhau'r gwaith yn unol â'r hyn a ddywedwyd ganddynt

DYLUNIAD

67% yw nifer y preswylwyr hynny sydd wedi cael gwaith sydd wedi cael eu cynnwys ym mhroses ddylunio'r gwaith gwella

TU ALLAN Y CARTREF

59% yw nifer y preswylwyr sy'n fodlon ar sut mae tu allan eu cartrefi'n edrych

Mae **'Preswylwyr'** yn golygu **tenantiaid** a **phrydleswyr.**

Mae'r rhan fwyaf o breswylwyr yn fodlon ar wasanaeth tai'r Cyngor

CYSYLLTU A'R CYNGOR

85% yw nifer y preswylwyr sy'n gallu cysylltu â'r gwasanaeth tai yn gyflym a rhwydd

BODLONRWYDD GYDA'R GWASANAETH TAI YN GYFFREDINOL

78% yw nifer y preswylwyr sy'n fodlon ar wasanaeth tai'r Cyngor

BODLONRWYDD GYDA'R GYMDOGAETH

76% yw nifer y preswylwyr sy'n fodlon ar eu cymdogaeth fel lle i fyw ynddo

YMATEB I SAFBWYNTIAU

64% yw nifer y preswylwyr sy'n meddwl bod y Cyngor yn gwrando ar eu safbwyntiau ynghylch eu cartrefi a'u cymdogaeth, ac yn gweithredu arnynt

Mae tua thraean o breswylwyr yn cael problem o ran gwresogi eu cartrefi neu'n profi lleithder

GWRESOGI

34% yw nifer y preswylwyr sy'n ei chael yn anodd gwresogi eu cartrefi i lefel gyfforddus yn y gaeaf.

LLEITHDER

34% yw nifer y preswylwyr sydd â lleithder mewn rhai rhannau o'u cartrefi

Nid yw preswylwyr bob amser yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt am SATC

GWYBODAETH

62% yw nifer y preswylwyr a ddywedodd wrthym fod y Cyngor wedi dweud wrthynt am SATC.

ESBONIO'R ANGEN AM Y GWAITH

55% yw nifer y preswylwyr sydd wedi cael gwaith a ddywedodd wrthym fod y Cyngor wedi esbonio pam bod angen y gwaith gwella

Y DDWY FLYNEDD NESAF

51% yw nifer y preswylwyr sy'n gwybod a fydd y Cyngor yn gwneud unrhyw welliannau i'w cartref yn y ddwy flynedd nesaf

WALES AUDIT OFFICE

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Cynhaliwyd y cyfweliadau ffôn i **Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** rhwng **23 Ebrill** a **1 Mai 2018**.

Gofynnodd Swyddfa Archwilio Cymru i'r Cyngor ddarparu rhestr lawn o'i breswylwyr. Yna siaradodd Swyddfa Archwilio Cymru gyda sampl o tua **5%** o holl denantiaid a phrydleswyr y Cyngor. Rhannwyd y sampl o **514** o ymatebwyr rhwng tenantiaid a phrydleswyr yn seiliedig ar statws cydymffurfiaeth â SATC y **10,477** o gartrefi a ddarparwyd gan y Cyngor. Mae'n bosibl i gartrefi fod yn cydymffurfio'n llwyr, ddim yn cydymffurfio neu'n fethiannau derbyniol. Mae'r sampl hefyd yn adlewyrchu statws SATC cartrefi ar draws yr ardal yn seiliedig ar y data a ddarparwyd gan y Cyngor. Ymatebodd **489** o denantiaid a **25** o brydleswyr i'r arolwg.